## ATODLEN 2

Rheoliad 12(3)

### GWYBODAETH AR GYFER ADRODDIADAU AMGYLCHEDDOL

**1.** Amlinelliad o gynnwys a phrif amcanion y cynllun neu'r rhaglen, a'u perthynas (os oes un) â chynlluniau a rhaglenni eraill.

**2.** Agweddau perthnasol cyflwr cyfredol yr amgylchedd a'i esblygiad tebygol heb weithredu'r cynllun neu'r rhaglen.

**3.** Nodweddion amgylcheddol yr ardaloedd y mae'n debygol yr effeithir arnynt yn arwyddocaol.

**4.** Unrhyw broblemau amgylcheddol presennol sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen gan gynnwys, yn benodol, y rhai sy'n ymwneud ag unrhyw ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol arbennig, megis ardaloedd a ddynodwyd yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 79/409/EEC ar gadwraeth adar gwyllt(**1**) a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

**5.** Amcanion diogelu'r amgylchedd, a sefydlwyd ar lefel ryngwladol, Gymunedol neu Aelod-wladwriaethol, sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen a'r dull y cyflawnwyd yr amcanion hynny ac unrhyw ystyriaethau amgylcheddol a gymrwyd i ystyriaeth wrth eu paratoi.

**6.** Yr effeithiau arwyddocaol tebygol ar yr amgylchedd, gan gynnwys effeithiau byr, canolig a hirdymor, ac effeithiau parhaol a thros dro, effeithiau cadarnhaol a negyddol, ac effeithiau eilaidd, cronnol, a synergyddol, ar faterion gan gynnwys—

(a) bioamrywiaeth;

(b) poblogaeth;

(c) iechyd dynol;

(ch) ffawna;

(d) fflora;

(dd) pridd;

(e) dŵ r;

(f) awyr;

(ff) ffactorau hinsoddol;

(g) asedau materol;

(ng) y dreftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys y dreftadaeth bensaernïol ac archeolegol;

(h) tirlun; a

(i) y gydberthynas rhwng y materion y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (a) i (h).

**7.** Y mesurau a ragwelir i atal, lleihau ac os yw'n bosibl i wrthbwyso unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd yn sgil gweithredu'r cynllun neu'r rhaglen.

**8.** Amlinelliad o'r rhesymau dros ddethol y dewisiadau amgen yr ymdrinnir â hwy, a disgrifiad o'r dull y gwnaed yr asesiad gan gynnwys unrhyw anawsterau a gafwyd wrth gasglu'r wybodaeth ofynnol.

**9.** Disgrifiad o'r mesurau a ragwelir o ran monitro yn unol â rheoliad 17.

**10.** Crynodeb annhechnegol o'r wybodaeth a ddarparwyd o dan baragraffau 1 i 9.

(**1**) O.J. Rhif L 103/1, 25.4.79.